YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1898. [RHIF 129.

PYRTH PRYDFERTH BYWYD.

(GWEL ACTAU III.)

MAE hanes y dyn cloff wrth y Porth Prydferth, a'r hyn a dderbyniodd yno, er ein bod yn ei ddarllen am y ganfed waith, yn llawn dyddordeb ac ystyr. Nid oes raid i ni dryblu ein hunain am y cwestiwn dyrys o "wyrth." Nid yw gwella wrth gyffyrddiad y llaw ddynol mewn cydymdeimlad â ffydd ddim yn beth anghyffredin hyd yn nod yn ein hoes ni. Mae pob oes wedi dwyn tystiolaeth i'r ffaith hon. Bydded i ni yn fyr daflu ein golwg dros yr hanes, a gweled a allwn ni ddim cael natur a bywyd ynddo.

Yr oedd y Porth a elwid Prydferth, yr hwn oedd wedi ei adeiladu gan Herod o brês Corinth, yn falchder y deml. Trwyddo yr elai yr holl dorf o addolwyr. Yma yn nghysgod ei ardderchogrwydd yr oedd rhyw ddwylaw caredig yn cludo bob dydd ddyn cloff—ni ddywedir wrthym ei enw, na dim arall am dano, oddigerth ei fod yn gloff o'i enedigaeth—ac a'i dodent yno, fel y gallasai rhyw galon dyner yn y dyrfa gael ei chyffwrdd gan ei gyflwr truenus, a rhoi ateb i'w apêl am elusen.

Sylwch ar yr amser—yn union bron ar ol eu profiad ar ddydd y Pentecost—adeg o gyffro ysbrydol mwy na'r cyffredin, pan yr ysgydwid hwy gan ddylanwadau anweledig nas gallasent roddi desgrifiad ohonynt, ond trwy eu galw yn "wynt nerthol" yn ysgubo drostynt, a phan yr ymddangosai y siaradwyr fel pe byddent wedi cael eu donio â thafodau o dân.

Teimlai Pedr bresenoldeb yr Iesu wedi adgyfodi yn eu plith. Ni ddywedir wrthym pa un a oedd ereill yn cyfranogi o'r un teimlad neu beidio. Nid oedd, ar un cyfrif, yn deimlad annaturiol

i'r cyfryw ohonynt ag oedd yn meddwl am dano, nid yn medd newydd Joseph, neu yn y byd tanddaearol, ond wedi adgyfodi. Yn union ar ol yr adeg hon o adfywiad ysbrydol yr aethai Pedr ac Ioan i fyny i'r deml. Yr oedd ar yr awr weddi—y nawfed awr—tri o'r gloch yn y prydnawn. Hawdd iawn yw i ni feddwl eu bod ill dau mewn ystad o frwdfrydedd ysbrydol. Yr oedd eu holl eneidiau ar dân gan deimlad byw o nerthoedd anweledig ag oeddynt yn ymweithio ynddynt. Wrth ymddynesu at y porth, er mor hwyr yn y dydd oedd, yr oedd y cloff, druan, yno o hyd, yn dysgwyl am geiniog neu ddwy yn rhagor, cyn cauai y drysau mawrion am y dydd. Wrth fyned heibio iddo, edrychodd efe i fyny atynt yn ymbilgar, a chan godi ei law, oedd wedi ei braenaru gan y tywydd, gofynodd iddynt am elusen. Fe drodd y ddau, ac edrychasant ar y dyn anffodus. Cyffrowyd eu calonau mewn tosturi a chydymdeimlad. Meddylient am allu yr Un oedd wedi adgyfodi, tra yma yn y corff, dros aelodau oeddynt wedi gwanychu ac wedi gwywo. Ai ni allasai efe o hyd wella trwyddynt hwy? Edrychodd y ddau arno. Yr ydys wedi galw y llygad yn ffenestr yr enaid. Mae yr enaid yn edrych trwyddo. Sefydlasant eu llygaid arno, a dywedasant, "Edrych arnom ni." Edrychodd, "gan obeithio," meddai'r hanes, "cael rhywbeth ganddynt." Edrychodd yn eu gwynebau. Beth oedd ystyr y goleuni tyner a welodd efe yn eu llygaid, mor anhebyg i edrychiad gwibiog y dyrfa oedd yn myned heibio. Yr oedd eu gwynebau yn dysgleirio gan y ffydd a'r cydymdeimlad a aned o'u profiad diweddar. Edrychodd. Edrychasant hwythau. Deffrödd rhyw obaith dyeithr ac aneglur yn enaid y dyn cloff. Ai ni allasai fod yna help iddo ef wedi'r cyfan—help i'r aelod gwywedig ag oedd efe wedi lusgo o amgylch gydag ef, er cyn cof? Ni welodd erioed wynebau mor llawn o gydymdeimlad Dwyfol! Pwy oeddynt? Efallai mai credinwyr oeddynt yn yr Athraw hynod hwnw oedd wedi cael Ei groeshoelio ychydig bach cyn hyn; a'r Hwn, meddai rhai, oedd wedi adgyfodi o'r byd tanddaearol, yr Hwn oedd yr offeiriaid yn Ei gashau, er nas gwelsant Ef erioed, ond yr Hwn oedd mor garedig wrth y tlodion, yn gwella llawer o gleifion a chloffion fel yr elai oddiamgylch gan wneuthur daioni. Mae ei enaid o hyd yn fyw gan obaith dyeithr. Mae Pedr yn siarad: "Arian ac aur nid oes genyf; eithr yr hyn sydd genyf, hyny yr wyf yn ei roddi i ti: yn enw Iesu Grist o Nazareth, cyfod a rhodia. A chan ei gymeryd ef erbyn ei ddeheulaw, efe a'i cyfododd ef i fyny, ac yn ebrwydd ei draed ef a'i fferau a gadarnhawyd. A chan neidio i fyny, efe a safodd ac a rodiodd, ac a aeth gyda hwynt i'r deml, dan rodio, a neidio, a moli Duw. A'r holl bobl a'i gwelodd ef yn rhodio ac yn moli Duw. Ac yr oeddynt hwy yn ei adnabod, mai hwn oedd yr un a eisteddai am elusen wrth Borth Prydferth y deml; a hwy a lanwyd o fraw a synedigaeth am y peth a ddygwyddasai iddo."

Yr wyf yn cyfaddef fod gan yr hanes nodwedd o natur a bywyd nas gall yr un syniad chwedlonol byth ei eglu o. Galwch

ef beth a fynoch, yn naturiol neu yn oruwchnaturiol, nid yw fawr gwahaniaeth. Nid yw y rhai hyn ond termau. Yr hyn wyf fi yn weled yn eglur yn y dygwyddiad yw y gallu sydd gan enaid ar enaid, a thrwy yr enaid ar y corff y mae yr enaid yn ei breswylio—gallu nerthol cydymdeimlad sanctaidd a ffydd fywiol i roi cadernid, nid yn unig i ysbrydoedd gweinion, ond hefyd i aelodau gweinion, yn enw y cariad achubol hwnw y mae yr Iesu yr engraifft oreu ohono y gwyddom ni am dano.

Nid gyda'r amcan hwn, fodd bynag, yr wyf fi wedi dewis y pwnc, ond er mwyn awgrymiadau ereill sydd yn gysylltiedig â hyn. Nid ffugyr o ymadrodd yw dyweyd fod yn ein bywyd dynol byrth a allwn yn briodol eu galw yn "Brydferth"—pyrth ag ydynt yn agor ac yn ein cymhell i gychwyn ar brofiadau a dyledswyddau newyddion. Ond y syniad arbenig y carwn i ei bwysfawru yw, fod arnom ni, wrth bob un o'r pyrth hyn, eisieu llaw o gymhorth, dynol neu Ddwyfol, i'n gosod ni ar ein traed, a'n parotoi ni ar gyfer yr agwedd newydd o fywyd i'r hon mae'r pyrth yn ymagor.

I ddechreu gyda'r porth cyntaf—porth mabandod a phlentyndod. Mae, yn wir, yn borth prydferth. Y fath obeithion hoffus sydd yn ymgrynhoi o gylch pob cryd—pa un ai yn y bwthyn neu yn y palas—gobeithion ydynt yn ddysglaer a dysgwyliadau na ŵyr neb am danynt ond y rhieni cariadus. Y fath bosiblrwydd sydd yn gynwysedig yn y bwndel bychan hwnw o anallu ac angen a elwir y baban! Nis gallasai holl aur Awstralia brynu y bwndel hwn o wendid ac angen sydd wedi ei ddodi wrth borth prydferth bywyd, yn gofyn am elusen oddiwrth bob un ohonom; yn meddu dim ond cymhwysder, mewn angen am bobpeth; gofal, gwyliadwriaeth, cydymdeimlad, cariad, doethineb—pobpeth i borthi a dilladu y corff, pobpeth i fywhau a phorthi'r meddwl, ac hyfforddi un bychan anfarwol ar gyfer y bywyd marwol ac anfarwol. A pha beth a all wneyd hyn ond serch a ffydd wedi ymgymysgu, yn debyg mewn ysbryd i'r serch a'r ffydd a edrychodd allan o lygaid dysglaer Pedr ac Ioan ar y gwr cloff wrth borth y deml. Yr wyf yn dyweyd *ffydd debyg* i hono—nid eu ffydd hwy. Eu heiddo hwy oedd eu ffydd hwy, a rhaid i'n ffydd ninau fod yn eiddom ni. Ond mae pob cariad a ffydd o'r un rhyw. Mae ganddynt yr un ffynonell, yr un ysbrydoliaeth. A'r hyn sydd ar y baban hwn wrth borth bywyd ei eisieu yw cyffyrddiad llaw gariadus a ffydd calon gariadus. Mae hyn yn sicr o ddwyn iachâd a chadernid gydag ef. Ac nid ydyw ef ddim yn llai Dwyfol yn y byd naturiol nag yw yn y byd goruwchnaturiol. Ai nid yw'r serch a'r ffydd â pha rai y mae'r fam wir Gristionogol yn ymgrymu uwchben ei phlentyn, gan feithrin i fywyd, gorff a meddwl, yn yr hyn a alwn ni y drefn naturiol mor wirioneddol o Dduw ag oedd y gallu a iachaodd y gwr cloff wrth borth y deml. Edrychwch sut y mae yn gosod ei hun mewn rhyw fath o lesmair serchus gyda'i phlentyn. Edrycha yn ei lygaid; chwilia am ei enaid, siarada âg ef yn iaith yr enaid—iaith y gŵyr y fam a'r

plentyn yn dda; gwena arno, dyddana ef o dan ei haden amddiffynol; gesyd nerth yn ei fferau trwy eu dal yn ei llaw wresog, famol, ac yn y diwedd, dena'r plentyn i godi a rhodio trwy yr ymddiried sydd yn pelydru trwy ei llygaid, a thrwy y llaw estynedig sydd yn barod i'w achub rhag cwympo, neu ei godi drachefn a thrachefn, hyd nes o'r diwedd y mae'r plentyn yn rhodio, ac yn neidio, ac yn moli Duw yn ei ffordd blentynaidd trwy ei lawenydd diniwed. Fe all serch wneyd hyn i gyd, ac y mae yn ei wneyd yn barhaus yn holl gartrefi gwirioneddol.

Ond y mae gwaith uwch i gael ei wneyd ar gyfer y plentyn, natur ddyfnach i'w chyrhaedd, bywyd o fewn bywyd i gael ei ddeffroi; a geilw hyn nid am serch yn unig, ond ffydd—ffydd yn sylweddolrwydd y bywyd mewnol hwn—ffydd fod y plentyn wedi ei greu ar ei gyfer, ac nas gall byth ymgodi i'w fan goreu hebddo—ffydd yn nelw Duw wedi ei chuddio yn mhob plentyn—ffydd ei fod wedi ei greu, nid i bechod, ond i sancteiddrwydd. Beth yn yr holl fyd yma sydd yn fwy prydferth na dyn neu fenyw ieuanc, wedi ei chynysgaeddu yn dda, yn feddyliol, yn foesol, ac ysbrydol, yn myned allan trwy y porth prydferth at waith mawr bywyd? Y fath obeithion dysglaer sydd yn ymganoli ynddo. Pa waith gogoneddus na all efe gyflawni, ond iddo fod yn driw i'w alluoedd a'i gyfleusderau? Ond nid ydyw yr holl obeithion hyn ddim yn cael eu sylweddoli. Tyngedir llawer ohonynt i siomiant. Paham y mae hyny? Ateb hyn fyddai ysgrifenu hanes bywyd pob un. Ni ellir ddim dyweyd "Pa'm" mewn brawddeg. Ond gellir yn ddyogel briodoli un rheswm am y methiant i hyn—teimlad gormodol o'n hunan-ddigonoldeb ac o'n hunan-ymddiried sydd yn aml yn dallu dyn i'w angenion moesol ac ysbrydol. Yn malchder ac yn nwyfiant nerthol dyndod ieuanc, mae dyn yn hwyrfrydig i weled ei fod *ef* yn gloff neu yn anafus, neu yn wan mewn unrhyw ran o'i natur. Nid yw ef ddim yn gripil wrth y porth i ofyn help oddiwrth neb. Mae ei fferau ef yn eithaf iawn; mae ei ewynion yn gryf. Mae yn ei elfen gyda phob difyr-gampau.

Ond sut y mae gyda gewynion y natur foesol ac ysbrydol, gyda'r teithi hyny yn yr enaid sydd yn ymladd brwydrau cyfiawnder, ac yn cymeryd gafael ar y bywyd tragywyddol; sydd yn dyweyd wrth yr ysbryd temtiol, nad o ba natur, "Dos yn fy ol i, Satan"? Ai nid oes gloffi, na gwendid, nac angen am gyffyrddiad y llaw sydd yn helpu? Hyd yn nod os na theimlir yr angen, 'dyw hi ddim yn canlyn nad yw'r angen yn wirioneddol. Gall beidio cael ei deimlo, am nad yw mawredd bywyd ddim yn cael ei deimlo.

Pan edrychir ar fywyd yn unig fel *scramble* egnïol am y *main chance*, am lwyddiant mewn busnes, neu am bleserau ag ydynt yn darfod wrth eu defnyddio, heb fywyd, heb ddyhead am ddim uwchlaw llwybrau cynefin llwch a lludw, pryd hyny, yn wir, gall unrhyw un â choesau a breichiau da, a llon'd gwniadur o synwyr, deimlo yn hollol gymhwys i'r gwaith sydd wedi cael ei roddi iddo. Po leiaf y gwniadur, mwyaf yr ymddiried.

Ond i un sydd yn edrych ar fywyd oddiar safbwynt posibl-rwydd moesol ac ysbrydol, i un sydd yn gweled mewn bywyd gyfleusderau euraidd, nid yn unig i wneyd ond i fod, nid yn unig i enill ond i roddi—cyfleusderau i ddefnyddio ein doniau, nad mor lleied ydynt, dros wirionedd a chyfiawnder, a lles y byd, dros Deyrnas Dduw yma a 'nawr, a thros y bywyd tragywyddol. I'r neb sydd yn gweled bywyd o'r safbwynt hwn, ac yn cymharu ei safon â'r hyn mae wedi gyrhaedd, y posibl-rwydd gogoneddus a'r teimlad o'i anallu, nid oes eisieu *argument* arno i'w argyhoeddi fod ei ysbryd, nad pa gryfed yw ei fferau, mewn angen mawr am y cyffyrddiad sy'n iachau ac yn nerthu o'r ffydd a'r gobaith sydd yn gwneyd yn fwyaf sylweddol bethau dyfnaf a mwyaf gwirion-eddol bywyd.

Edrychwch dros fywydau y gŵr a'r gwragedd mwyaf god-idog y gwyddoch am danynt, a dywedwch ai nid yw yr hyn sydd ddyfnaf a goraf, sydd fwyaf anhunanol ynddynt, wedi ei gysylltu yn fywydol â sylweddau dyfnion y ffydd hono yn Nuw a dyn, ac yn y bywyd Dwyfol y safai yr Iesu am dano—y ffydd sydd bob amser, mewn rhyw ffordd, yn iachau dynoliaeth sydd wedi cloffi, ac yn nerthu y rhai gweiniaid? 'Dyw dynion ddim yn cael eu cofio oherwydd eu safle, nac oherwydd eu meddianau, ond am y ffordd y maent yn defnyddio eu safle a'u meddianau. Pa un ai dros hunan neu dros ereill, pa un ai dros y bywyd uwch neu y bywyd îs, pa un ai dros y cnawd neu dros yr Ysbryd. Y dyn â'r bywyd mwyaf godidog sydd yn tori ei enw ddyfnaf ac uchaf yn y graig—na, yn wir, 'dyw y cyfryw ddynion ddim yn ceisio am y lle blaenaf. Dyma y dynion sydd yn codi uchaf yn nghariad eu cyd-ddynion, ac yn byw hwyaf yn serch ac anrhyd-edd y galon.

Hwnw yw y cymwynaswr goreu i mi sydd yn fy helpu i gael ffydd mewn sylweddau tragywyddol, mewn anrhydedd, iawnder, uniondeb, hunanaberth, ac yn fy nghodi i'r safle lle y gallaf weled oreu y gwahaniaeth rhwng bywyd uchel a bywyd isel.

A oes ar ddynoliaeth eisieu rhywbeth yn fwy na hyn, wrth fyned trwy borth prydferth bywyd ieuanc? A oes rhywbeth yn fwy sicr i dywys y bywyd mewn cyfeiriad iawn na hyn?

Dyma beth wyf yn olygu wrth yr angen mawr am gyffyrdd-iad ysbryd Crist wrth fyned trwy y porth. Yr ysbryd hwn sydd yn dyrchafu, yn tywys, ac yn rhyddhau yr enaid i fyw yn fwyaf gogoneddus. Mae o hyd yn orphwysfa i'r blinderog, ac yn oleuni i'r sawl sydd yn eistedd mewn tywyllwch. Mae yn fwy na hyny. Mae yn ysbrydoliaeth ar gyfer y bywyd tragywyddol yma a 'nawr. "Arian ac aur" nid oedd gan yr Iesu. Ond yr hyn oedd ganddo Efe a'i rhoddodd—Ei Hunan, enaid ar dân gan gariad Duw a dyn.

Nid oes dim rhyfeddod fod cyffyrddiad yr ysbryd hwnw o hyd yn allu i iachâu, i nerthu, ac i dywys; cymaint o'i angen yn awr ag y bu erioed i sefyll fel angel goleuni a help wrth bob porth mewn bywyd. Ond mae dyndod yn brysio yn mlaen i henaint.

A allwn ni alw hwnw hefyd yn borth prydferth? Gallwn, os yw ffydd a gobaith, fel Pedr ac Ioan, yn sefyll wrth y porth i edrych yn ein llygaid a chymeryd ein dwylaw wrth fyned trwyddo. Ar y cyntaf, ymddengys porth henaint yn bobpeth ond prydferth. Geilw un o feirdd America ef yn "Borth Harn." I lawer nid yw ond harn, ac mae arnynt fraw i fyned trwyddo; ac nid elent byth oni bai eu bod yn cael eu gwthio gan y dorf y tucefn iddynt. Wrth fyn'd ato, ymddangosai fel harn; ond wrth edrych arno o'r tufewn, gyda ffydd a gobaith yn ymddysgleirio arno, mae yn brydferth—bron mor brydferth â phyrth mabandod a bywyd ieuainc.

Mae porth mabandod yn gwynebu codiad haul. Mae porth canol oed o dan haul ar haner dydd. Mae yn wir fod porth henaint yn edrych tua gostwng haul; ond gostwng haul yw sydd yn dwyn gydag ef addewid am ddydd anfarwol. Maent i gyd yn byrth prydferth; pa un yw y mwyaf prydferth, ni feiddiwn ddyweyd hyd nes y gwelwn hwynt i gyd o'r safbwynt uwch ag ydym yn obeithio gyrhaedd maes o law. Ond yma a 'nawr, mae gan henaint, er ei holl wendidau, ei fendithion nas gall mabandod a chanoloedran wybod am danynt hyd nes y pasiant trwy y porth—bendith gorphwys ar ol lludded, y fendith o gymdeithas felus gyda'r sawl yr aethom gyda hwy trwy yr holl byrth prydferth—byw drosodd drachefn olygfeydd y gorphenol, edrych yn mlaen mewn gobaith gogoneddus at gymdeithas uwch, lle yr adnewyddir yr ieuenctid fel yr eryr. Mae hyn yn codi y cysgod oddiar henaint, ac yn gollwng i fewn des Duw i oleuo a gwresogi. Ond mae hyn yn golygu cyffyrddiad y llaw sy'n iachau. Ac yn awr, yn enwedig, fel yn moreu oes, mae cymaint o angen help i'n cynorthwyo ni yn dyner a chariadus i godi uwchlaw y cymylau a'r cysgodion, ac i basio yn ffyddiog trwy borth prydferth arall i'r trigfanau dedwydd.

A yw marwolaeth, hefyd, yn borth prydferth? Ni allesid meddwl hyny wrth yr enwau celyd a roddir arno—"y teyrn erchyll," "y dinystrydd mawr," "brenin y dychryniadau," a'r cyffelyb. Ond ni roddodd Duw erioed yr enwau hyn ar ei angel gwyn ei edyn. Ni roddodd yr Iesu erioed yr enwau hyn arno; ac mae y ffaith fod dosbarth o gredinwyr neu anghredinwyr wedi cymhwyso y fath enwau at yr angel gwasanaethgar hwn i'r Goruchaf Dduw yn brawf o'r angen sydd o hyd am ffydd yr Iesu yn y bywyd anfarwol, i sefyll wrth y porth prydferth hwn, gan edrych yn llygaid y rhai gwan eu ffydd, sy'n gorphwys yn yr hyn a ymddengys iddynt hwy yn gysgod diobaith, ac erchi iddynt godi, sefyll ar eu traed, a rhodio trwy y porth, dan foli Duw, heb amheu nad yw Efe yn byw o'r ddau du i'r porth; a lle mae Ef yn byw, fod Ei blant i fyw hefyd.

Dyma rai o byrth prydferth bywyd—mabandod, y blagur yn ymchwyddo ac yn dysgwyl am yr haul a'r gwlaw ysbrydol i'w ddadblygu i'w lawn dwf; dyndod, gyda'i lafur, a'i ludded, ei gyfleusderau euraidd, yn addfedu ffrwyth ar gyfer henaint; henaint

sydd yn gweled yn ngogonianau gostyngiad haul arwyddion codiad haul nad yw byth i fachlud; ac yn ddiweddaf, y porth sydd yn arwain i'r lân ac yn mlaen i fywyd uwch. I gyd yn byrth prydferth; wedi eu hadeiladu, nid gan gyfoeth a gweithwyr Herod, ond gan yr Holl-Brydferth, yr Hwn a greodd ddyn ar Ei ddelw Ei Hun i brydferthwch sancteiddrwydd.

Wrth bob porth mae angylion Duw, mewn rhyw ffurf, yn aros i roi i ni y cyffyrddiad sy'n iachâu, ac i'n gosod ar ein traed. O! pe gallem bob amser fod yn ymwybodol o ysbryd y Cariad Dwyfol sy'n ymgrymu drosom wrth bob porth, yn edrych yn ein llygaid, yn ceisio cael gafael yn ein heneidiau, ac i alw allan gariad fyddo yn ateb, oni wnaem i gyd adael ein pechodau, ein gwendid, a'n amheuon, a sefyll ar ein traed, dan rodio, a neidio, a moli Duw trwy fywyd mewn cydgordiad â'r Ewyllys Ddwyfol.

WRTH DY EIRIAU Y'TH FERNIR.

CHWI a'm gelwch yn Athraw, ac ni ymofynwch â mi.

Chwi a'm gelwch yn Oleuni, ac ni'm gwelwch.

Chwi a'm gelwch yn Ffordd, ac ni'm dilynwch.

Chwi a'm gelwch yn Fywyd, ac nid ydych yn hiraethu am danaf.

Chwi a'm gelwch yn Ddoeth, ac ni cheisiwch fod yn debyg i mi.

Chwi a'm gelwch yn Dda, ac nid ydych yn fy ngharu.

Chwi a'm gelwch yn Gyfoethog, ac ni ofynwch am ddim genyf.

Chwi a'm gelwch yn Dragywyddol, ac ni cheisiwch am danaf.

Chwi a'm gelwch yn Drugarog, ac ni hyderwch ynof fi.

Chwi a'm gelwch yn Arglwydd, ac ni'm gwasanaethwch.

Chwi a'm gelwch yn Hollalluog, ac ni'm hanrhydeddwch.

Chwi a'm gelwch yn Gyfiawn, ac ni'm hofnwch.

Os condemniaf chwi, chwi eich hunain sydd wedi cyhuddo.

(Cymreigiad o ysgrifen a welir yn Eglwys Lubeck yn yr Almaen.)

T. C. U.

HIRAETH AM ENID,

Anwyl ferch Daniel ac Ellen Jones, Teifi Mills, Llandysul, yr hon a fu farw, yn ddeg mlwydd oed, Rhagfyr 10*fed*, 1897, *ac a gladdwyd y Llun canlynol yn nghladdfa capel Penrhiw.*

GWELED lili wen yn gwywo un prudd foreu cyn y wawr,
Gwel'd ei gwreiddiau wedi eu tynu, a'i dail yn îr a gwyrdd eu gwawr;
Gwel'd fy ENID lan yn marw dorodd rywbeth dan fy mron—
Rywbeth na chyfenir mwyach tra y cura'r galon hon.

'Chydig dybiais i fod angel yn trigianu ar fy mhwys,
Hyd nes cododd, gan ymddangos yn ei wir agweddau glwys.
Pan y cododd ffwrdd, gan adael yn fy ymyl blisgyn gwael—
Dyna'r pryd gwnes sylweddoli pa fath gwmni ddarfu'm gael.

F'anwyl Enid, bydd dy ddelw, bydd dy ffurf a'th dirion wedd
O flaen llygaid prudd fy meddwl tra b'wy'r ochr hyn i'r bedd;
Bydd dy lais melodaidd, isel, yn fy nghyfarch yn y tŷ,
A dy lygaid dwfn-ddu, tawel, fyth yn edrych arnaf fi.

Rhan ohonof ymsymudodd mewn i'r anweledig cudd
Gyda thi, fy anwyl Enid—byddaf bellach byth yn brudd;
Cartref wisgwyd â dyeithrwch, pob peth sydd ar "newid wedd;"
Pob dodrefnyn sydd yn sibrwd fod fy Enid yn y bedd.

Mae y gwanwyn hardd a'i flodau fel â mi yn cydymddwyn,
Am fod llygaid glan yn eisieu syllai arnynt gyda swyn;
Eden iddi oedd y ddaear, pan yn mhlith y blodau mân—
Llwyr anghofiai bawb pan rodiai drwyddynt hyd y meusydd glan.

A oes blodau teg yn tyfu yn y wlad wyt ynddi 'nawr?
Oes i'w clywed bêr garolau fel sydd yma gyda'r wawr?
Oes, mae miwsig a phrydferthwch uwch na fedd ein daear ni,
Wedi eu trefnu i drigolion pur dy ardal hyfryd di.

Pan ar symud oddiyma, pan yn rhoi yr olaf gam,
A'r anadliad wan ddiweddaf, d'wedai, "Peidiwch wylo mam."
"Peidiwch wylo"—adsain cysur oedd ei geiriau olaf hi—
Adlewyrchiad o ryw oleu claer tucefn i'r cwmwl du.

Ffarwel, Enid, gwir ddyogel wyt yn awr mewn hafan glyd,
Cyn cael siom, na dig, na gofid, nac un profiad cas o'r byd;
Mordaith fêr a fu dy fywyd, gydag awel fwyn o'th du,
Minau geisiaf ddyfod atat, er dros dònau geirwon lu.

EI MAM.

JOHN ISHMAEL JONES.

XV.

MEWN pentrefydd a threfydd bychain, mae efail y gôf, gweithdy'r saer, a'r siop, i'r gwrywaid, yr hyn ydyw y ford dê i'r benywod. 'Dyw'r ymdrafodaeth a gerir yn mlaen yr un mymryn yn uwch na phwysicach yn y naill le na'r llall. Cyrchfan ddewisol llawer ydoedd siop diacon Beynon. Eisteddai y bobl oddiamgylch gan ysmygu, heb gael eu haflon-yddu. Yr oedd y diacon yn fwy parod i glongcan nag i weithio. Rhoddai ofal y gwaith i'w wraig, ac eisteddai yntau mewn cadair fawr o flaen y tân, a chynorthwyai i setlo cwestiynau mawr y dydd.

Y cwestiwn naturiol ag oedd uchaf yn meddwl pawb oedd yr ysgandal newydd am y gweinidog. Os y gwelid dau neu dri o bersonau yn aros ar gornel yr ystryd, byddech yn sicr mai dyma ydoedd pwnc eu hymdrafodaeth. Os y deuai Mr. Jones heibio, siaradent am rywbeth arall; croesawent ef yn deg, gyda "Dydd da, Mr. Jones;" ac yna, ar ol iddo basio, gwnai un sylwi:—

"Pwy feddyliai y fath beth am dano? Edrychwch y fath ddyn ffein yw e'. O! y mae'n drueni."

Fel yma yr aethant yn mlaen o foreu hyd nos.

Ar y Sul canlynol yr oedd Mr. Jones yn pregethu yn Nhre'rhaf, a gweinidog Tre'rhaf yn llanw ei bwlpud yntau. Y dydd Gwener blaenorol, galwodd Mr. Smiley gyfarfod yn nghyd o'r rhai ag oedd o'r un golygiadau ag ef, i fyned dros yr amgylch-iadau, a rhybuddiwyd Mr. Jones eu bod yn galw cynadledd o'r eglwysi cylchynol i chwilio i mewn i iachusrwydd ei athrawiaeth. Yr oedd y gynadledd i gwrdd y dydd Iau canlynol.

Ni ryfeddodd Mr. Jones o gwbl at hyn, am y credai y byddai yn sicr o dd'od yn fuan. Ar ei ran ei hun, nid oedd am sefyll y treial; ond anogai ei gyfeillion yn y weinidogaeth ef i sefyll er eu mwyn hwy. Pregethent yr un athrawiaeth ag ef, ac yr oeddynt am gael prawf ar y peth, a oedd rhyddid yn yr eglwys.

Er fod cydymdeimlad Dafydd Edwards gyda pharti Mr. Smiley, eto, ni chymerodd ran flaenllaw yn y mater, am ei fod yn gwel'd mor adfydus yr effeithiai ar ei ferch. Ergyd chwerw, yn wir, ydoedd y treial hwn iddi; oherwydd gwelai Ishmael wedi ei frandio a'i daflu allan o'r eglwys; a meddyliai hyny ei golli ef am byth, neu dori calon ei thad. Yr oedd hi bob amser wedi bod yn hoff ganddo, ac yn awr yn ei henaint pwysai arni yn fwy nag erioed. Felly dadleuai â Mr. Jones, bryd bynag y gwelai ef, nes yr ofnai braidd ei chyfarfod, rhag y buasai ei thristwch a'i gariad ei hun yn ei berswadio i blygu neu droi oddiwrth y gwirionedd.

Erbyn hyn, gwyddai Ishmael yn dda am y chwedlau cel-wyddog a daenid am ei gymeriad yn y dref, eto, cadwodd yn

hollol dawel, ac ni wnaeth yr un eglurhad. Gwyddai y byddai i'r chwedlau yma wneyd pethau yn anhyfryd yn y gynadledd, eto, bu yn dawel. Yr unig beth obeithiai nad oedd Madge wedi clywed dim a roddai ergyd arall i'w thristwch; ond ni feiddiai ofyn iddi, rhag y byddai i hyny fod yn ddatguddiad o'r hyn y gobeithiai na wyddai am dano.

Y Sul ddaeth, a chydag ef gyfleusdra i siarad y mater drosodd â Tom, cyfaill ei fywyd. Wrth gwrs, arosai yn ei dŷ. Ar derfyn y dydd, ar ol swper, cawsant yr hwyr iddynt eu hunain. Ar ol i un danio ei bîb, a'r llall ei *cigar*, gofynodd Tom:—

"Beth ddywedodd hi wrthoch chi y bore 'ma? A ydi hi yn barod i chi siarad?"

"Nag ydi, Tom. Nis gall feddwl am hyny eto, ac nid yw ryfedd ar ol yr hyn yr aeth drwyddo."

"Ond y mae yn drueni ofnadwy fod yn rhaid i chwi ddyoddef i'r ysgraglach i ysgwyd eu tafodau pan y rhoddai un gair derfyn ar y cyfan."

"Nid yw o un pwys; gallaf ddyoddef y cyfan. Addewais iddi yn Llundain y cawsai ei hamser ei hun i siarad; a hi a gaiff, beth bynag gostio i mi."

"Ond pe bai yn gwybod!"

"Ni chaiff wybod, Tom. Ni chaiff beryglu y cyfan 'nawr er mwyn arbed ychydig ohonof fi."

"Fe wna bethau yn dwym yn y gynadledd."

"Bydded dwym, ynte; hi gaiff wybod fy mod wedi gwneyd pob peth allwn iddi."

"Beth am Madge? A ydi hi yn gwybod?"

"Rwy'n gobeithio nad ydi hi; ond os ydi, y mae ganddi hi synwyr, beth na sydd gan y rhai ereill. Ychydig ofnwyf am dani hi."

"Mae menywod yn ddigofus a drwgdybus, Ishmael. Peidiwch dysgwyl gormod oddiwrthynt hwy."

"Ond i newid y pwnc, Tom," meddai Ishmael, "mae'r ffaith mod i yn cymdeithasu â chwi yn drosedd o'r fath waethaf yn ngolwg Smiley. Heblaw eich heresi, a oes ganddo ryw reswm arall dros eich cashau chwi?"

"Yr un rheswm ag sydd gan bob *sham* i gashau y dyn sydd yn eu cael allan. 'Rwyf yn ei adnabod yn rhy dda, dyna i gyd."

"A ydych wedi cael unrhyw drafodaeth masnachol erioed âg ef?"

"Gallwn feddwl fy mod. 'Rwyf wedi gorfod talu pris uchel am hyny; nid wyf yn meddwl yr anghofiaf ef yn fuan. Mae ei garacter mewn masnach yn bwdwr. Rhydd 'trefn ei iachawdwriaeth' iddo *chance* o hyd."

"Wel, beth wyddoch am ei fusnes, Tom?"

"Mi wn lawer o bethau, ac yr wy' wedi talu pris uchel am fy mhrofiad. Er engraifft, yr oedd genyf shâr yn y gwaith mŵyn yn y Gogledd. Buais fyny yn ei wel'd, cefais fy moddloni, ac yr oeddwn ar brynu rhagor. Cafodd yntau allan ei werth. Ac yna

trwy gyfrwysdra, cafodd yr afael drecha' i'w ddwylaw ei hunan, trodd y dw'r i fewn iddo, llanwodd ef, a gadawodd iddo aros. Yr oeddym yn y lleiafrif, ac nis gallem wneuthur dim. Gyrodd ni gyd allan, yr oedd y cyfan yn ddiwerth, a gwerthai pawb ei ran am gân. Fe allwn i sefyll, ond fe ddystrywiodd rai ag oedd wedi rhoddi yr oll feddent yn y byd. Ar ol iddo gael—hyny yw, *dwyn* —yr holl gapital, yna trödd i glirio'r gwaith, a gwnaeth ei ffortiwn ohono. A'r fath arian a hyn y mae yn cynorthwyo achos yr Arglwydd."

"A ydyw yn gwneyd pethau o'r fath yn aml?"

"Nid yn fwy aml nag y gall gael cyfle. Y mae yn wastad yn onest, pryd na all help. Yr wyf yn gwybod fod ganddo ffordd o ddoctoria ei lyfrau, fel ag i gwneyd hwy i edrych yn iawn i'r rhai hyny ag y mae yn ddefnyddio eu harian; ac yna yn ddisymwth, trwy oruchwyliaeth ryfedd Rhagluniaeth, y mae yn ffaelu, ac yn myned yn fethdalwr. Ac yna y mae yn alluog i gael cerbyd newydd. Ond dyna lle mae yn i gwneyd hi wed'yn. Ar ol gwneyd ac enill drwy y triciau yma, y Sul ar ol hyny siarada yn yr Ysgol Sul ar Groes Crist, ac yn ei deimladau tyner, y mae yn wylo gyda hwy. Ac ar y diwedd, dywed, gan fod yr Arglwydd yn neilduol garedig iddo, ac wedi ei fendithio yn neilduol i wneyd arian i'w achos Ei Hun, anrhegai hwynt o lyfrgell newydd, gosodai bictwrau ac arwyddeiriau i fyny yn yr Ysgol, y ddau fwyaf amlwg oedd, 'Honesty is the best policy,' a 'Virtue is its own reward.'"

"Nid yw yn rhyfedd, Tom, ei fod yn eich cashau."

"Ond fy 'anghrediniaeth' y mae yn gashau."

"Chwi wyddoch, Tom," meddai Ishmael, "fod gan Smiley chwaer, oni wyddoch?"

"Gwn, mi wn lawer am dani, ond nis gwelais erioed."

"Beth wyddoch am dani? Y mae genyf fy rhesymau dros wybod."

"Mi wn gymaint a hyn; mae yr holl deulu wedi marw ond Smiley a'r chwaer yma, Mary. Hi oedd yr ieuengaf, ac y mae oddeutu ugain oed, feddyliwn i. Clywais ei bod yn wan ac ofnus, ac eto y mae ganddi ewyllys o'i heiddo ei hun."

"A ydyw Smiley wedi ymddwyn yn garedig tuag ati?"

"Ydyw, o flaen pobl. Efe yw ei hymgeleddwr cyfreithlawn, a gadawodd ei thad ei rhan hi yn llaw Smiley, ac y mae i'w gael ar yr amod ei bod yn priodi i'w foddloni ef. Credai ei thad nad oedd menywod a merched i gael eu hymddiried, ond y dylent ufuddhau eu tad neu eu brodyr: a Smiley oedd ei ffafred, bachgen wrth fodd ei galon. Felly mae yr hanes. Ac yn wir, fe ddywedodd Smiley unwaith ychydig ohono wrthyf. Y mae yn ddiweddar wedi ei herlid, am ei bod wedi addaw priodi, heb gonsulto ei fawrhydi. Y gwrthwynebiad oedd ganddo i'w dewisddyn—ei fod heb wneyd ei ffortiwn. Yr oedd Smiley wedi darparu iddi briodi un o'i bartners mewn rhyw waith mawr. Nid oedd ei chwaer ond fel pob peth a phob un arall, gwerth hyn a hyn ar y farchnad."

"Dyna bron ddywedodd hi hefyd," dywedai Ishmael.

"Ddywedodd hi pwy oedd hi?" gofynai yntau.

"O! cyfeilles i mi yn Llundain. Yr oedd, i bob ymddangosiad, yn gwybod y cyfan."

"Yr hanes diweddaf glywais am dani, er's rhyw fis ol, ei bod wedi myn'd i golli, ac y mae Smiley wedi chwilio am dani yn mhob man. Credaf nad oes fawr o wahaniaeth ganddo, oni bai am anrhydedd y teulu. Gwnai bron unrhyw beth er arbed hwnw. Gadawai iddi briodi yr un ddewisai pe bai ei falchder yn cael ei gyffwrdd yn y mater."

"Y mae yn dda genyf eich clywed yn dyweyd hyn, efalle y gwna ei falchder fy nghynorthwyo drwy y mater."

"Eich helpu drwy ba fater? Yr ydych yn siarad trwy niwl. Beth sydd gyda chwi i wneyd âg ef?"

"Mwy nag a feddyliech, efalle. Nid wyf am ddyweyd wrthych, os gallaf beidio."

"Am beth y siaradwch, Ishmael?"

"Am chwaer Smiley; yr hon ddeuais yn ol o Lundain, a'r hon achubais o drueni. Dyna'r *secret* allan 'nawr. Ei dymuniad hi oedd na ddywedwn i neb. Ac nid ydych i sisial gair i neb am hyn."

"Mae'r gwirionedd yn rhyfeddach na ffug. Yn awr ni gawn wel'd beth ddaw o ragrith a thwyll Smiley, diacon parchus eglwys Calfaria." Q. T.

(I'w barhau.)

Y PARCH. WILLIAM THOMAS, LLANDYSUL, A'I ENLLIBWYR.

(CYFIEITHIAD.)

[Credaf y bydd y llythyr a ganlyn o'r *South Wales Daily News* yn debyg o gael ei ddarllen gyda dyddordeb gwresog gan yr ychydig sydd yn aros o hen gyfeillion Mr. Thomas.—*R. J. J.*]

SYR,—Y mae rhai o fy nghyfeillion wedi galw fy sylw at y son sydd allan, ac, fel yr wyf yn deall, yn cael ei ddiwyd ledaenu mewn rhai manau; ac yr wyf yn gobeithio y caf genad genych yn garedig i ateb drwy eich colofnau, ac i roddi iddo wadiad llwyr, heb nac os, nac ond, nac oni bai. Mae y cyhuddiad sydd yn gynwysedig yn y son yn sicr yn un o'r rhai diweddaf y buaswn yn dysgwyl cael fy ngalw i'w wadu. Dyma fe: Fy mod tua dwy flynedd yn ol, fwy neu lai, wedi gwneuthur cais at Esgob Ty Ddewi am urddau sanctaidd yn yr Eglwys Sefydledig, a bod ei arglwyddiaeth wedi gwrthod gwneuthur dim â mi ar y pwnc, gan fy mod yn weinidog Undodaidd, oni

byddai i mi yn gyntaf ymwrthod â fy nghredo a fy nghysylltiadau presenol, a myned trwy oruchwyliaeth burdanol am ysbaid dwy flynedd.

Yn awr, yn fy ngolwg i, y mae yr ensyniad hwn yn un gwaradwyddus iawn, ac yn un sydd a'i duedd, lle nad wyf yn ddigon adnabyddus, i niweidio fy ngharitor. Mae yn d'od i hyn, fy mod yn parhau i fod yn Anghydffurfiwr ac Undodwr yn unig am na fyn Eglwys Loegr fy nghael: fy mod yn parhau i grwydro ar gwmin noeth Ymneillduaeth am yr unig reswm fy mod wedi methu cael derbyniad i borfeydd gleision yr Eglwys; fod fy Anghydffurfiaeth yn ffug *(sham)*, fy Undodiaeth yn gelwydd.

Mewn ateb, dymunaf ddywedyd, yn yr iaith fwyaf agored ac eglur, na ddarfu i mi erioed, ddwy flynedd yn ol, na chynt na chwed'yn, wneuthur, nac achosi i gael ei wneuthur, un cais o'r fath at Esgob Ty Ddewi, na neb arall. Yr wyf yn herio unrhyw Eglwyswr—o Archesgob Caergaint i lawr hyd at glochydd y plwyf—i ddyfod yn mlaen a phrofi i mi erioed ddatgan neu awgrymu un dymuniad i droi. Dywedaf ragor, nid yn unig na ddarfu i mi erioed gymeryd un cam tuag at gael derbyniad i'r weinidogaeth yn Eglwys Loegr, ond mwy na hyny, na ddarfu i mi erioed, hyd yn nod ar oriau segur, yn nghanol cynlluniau a bwriadau anwadal, a breuddwydion gwylltaf blynyddoedd ieuenctid, goleddu y dymuniad lleiaf am gael urddau Eglwysig, na dychymygu erioed fod y fath beth yn debyg o gymeryd lle fel rhan o ddygwyddiadau pwysig y dyfodol. Nis gellid awgrymu dim yn fwy croes i fy nheimladau, neu yn fwy croes i'm syniadau. Yr wyf yn Anghydffurfiwr o'r Anghydffurfwyr. Dygwyd fi i fyny fel un, ac nid yw yr oll wyf wedi ddarllen, na'r oll wyf wedi feddwl, ond yn unig wedi fy nghadarnhau yn fy Ymneillduaeth; mewn gair, wedi ei wneuthur yn angenrheidrwydd i mi aros yn Ymneillduwr, os wyf i fod yn ffyddlon i'r hyn sydd oreu ac ardderchocaf yn y natur ddynol. Fy nyledswydd gyntaf, a fy amcan mawr cyntaf hyd yma, sydd wedi bod i gadw cydwybod glir. Pe yr ymunaswn â'r Eglwys, nis gallasai fod ond trwy aberthu fy nghydwybod; a bargen yw hona na fynwn i ddim o'i pbleidio am holl fywoliaethau breision y wlad. Pe yr ymunaswn a'r Eglwys, ni fuasai ond y ffug-ymddangosiad distadlaf o Gydffurfiaeth, gweithred o ragrith, a phuteiniad o'm bywyd er mwyn amcanion rhy frwnt a gwael i mi feddwl am danynt oddieithr gyda braw a dychryn.

Dymunaf iddo fod yn ddealledig, mai siarad wyf yn awr mewn hunanamddiffyniad, ac nid gydag un bwriad i daflu un gwaradwydd ar y cyfryw hyny ag a gredant mewn sefydliadau Eglwysig, ac a gânt eu cartref ysbrydol yn Eglwys Loegr. Gwn am lawer o'r fath rai. Nid wyf yn eu barnu. Mae genyf barch uchel i lawer o aelodau galluog, dysgedig, a duwiol yr Eglwys, y rhai yr wyf yn falch eu cyfrif yn nifer fy nghyfeillion. Pe cydffurfio wnawn, nis gallwn gyfrif fy hunan yn hŵy yn deilwng o'u cyfeillach. I'w Meistr eu hun y maent yn sefyll neu syrthio. Gallaf

werthfawrogi y daioni a geir yn yr Eglwys mewn mesur tra helaeth, yn ogystal a'r daioni sydd i'w gael fwy neu lai yn mhlith yr holl sectau. Ond nid yw yr Eglwys i mi; nis gallaf fi fod yn gydwybodol ond lle yr wyf.

Un gair yn ychwaneg. Ymddengys yn dra drwgargoelus fod Eglwyswyr gorselog ac ereill, yn awr o bob amser, yn breuddwydio ac yn siarad am Ymneillduwyr yn cydffurfio. Mae y gwynt yn chwythu i gyfeiriad arall. Cyn bod ein plant ni yn ddynion, bydd Sefydliadau Eglwysig yn Lloegr a Chymru bron cystal a bod wedi diflanu. Mae yr iâ yn cracio ar bob llaw, a byddai yn rhyfedd fy mod i, neu, yn wir, unrhyw un arall mewn sefyllfa debyg, yn ceisio newid ochr pan y mae tymhor y dadlaeth mawr wedi dechreu.

Ydwyf, Syr, eich ufudd was,

Llandysul, WILLIAM THOMAS.
Mawrth 23ain, 1870.

PREGETH RHWNG CROMFACHAU.

Y MAE y pregethwr wedi marw er's llawer blwyddyn, ond yn llefaru eto. Un o wŷr y *Taly-ho*, a math o *muscular Christian* oedd. Anghydffurfiwr hefyd, ac nid Eglwyswr oedd; ond mor hoff o'r ymarfer corfforol ag sydd yn fuddiol i iechyd ag y bu Charles Kingsley erioed; ac mor ymroddedig hefyd ag y bu hwnw erioed i'r dduwioldeb sydd fuddiol i bob peth. Ni chredai fod gwyneb hir o angenrheidrwydd yn arwydd o grefyddolder ysbryd, na chrac da a chwerthin yn anffafriol i'r bywyd uwch. Yr oedd yn byw mewn oes dra gwahanol i'r un bresenol, ac wedi ymgynefino âg arferion fyddant heddyw yn ymddangos yn chwithig.

Wedi cyrhaedd y capel un boreu Sul dipyn yn gynar, yr oedd efe gydag ereill o'r brodyr o amgylch y tân mewn ymgom ddiniwed a hapus, bob un â'i bibell, ac yn tynu mwg goreu gallent. Yr oedd Mr. Jones yn adrodd yr helynt fel y bu gyda'r cadno yr wythnos o'r blaen, a chyda hwyl ac arddeliad yn tynu at gloi y 'stori i fyny, yn dywedyd, "eu bod wedi codi'r cadno, ac yn dilyn yn dŷn ar ei gŵt; ac er syndod i bawb, dyna fe yn ddisymwth, pan oedd bron cael ei ddal, yn rhoi eitha' naid i ganol yr afon, ac"—("Mr. Jones," meddai un o'r diaconiaid, "mae yn bryd dechreu." A dyna Mr. Jones ar unwaith yn esgyn i'r pwlpud, ac yn myned trwy y gwasanaeth fel arfer yn hwylus iawn o'r dechreu i'r diwedd, ac wedi hyny yn dychwelyd at y tân, ac yn dywedyd)—"os 'dych-chi yn fan yna, fe neidiodd y cwn bob pen ohonynt i ganol yr afon ar ei ol! ac yno fe'i daliwyd!"

Q. Q.

ACHUBIAETH PLANT.

(HANES HYNOD, OND GWIR.)

YN Marsden, y dydd o'r blaen, rhoddodd gwraig enedigaeth i efeilliaid; fe ddygwydd peth o'r fath ambell dro mewn ambell deulu. Nid oedd y genedigion yn gryf, ac felly danfonwyd am yr offeiriad i'w bedyddio. Cyn i'r offeiriad gyrhaedd, yr oedd un o'r rhai bychain wedi marw; ac yn fuan ar ol ei fedyddio bu farw y llall. Bwriad y rhieni oedd claddu y ddau gorff yn yr un arch; ond gorfododd yr offeiriad hwy i gael dwy arch, a bu raid iddynt dalu pedwar swllt am gladdu pob corff—wyth swllt i gyd.

Dygwyd un arch i'r Eglwys, a darllenwyd y gwasanaeth claddu uwch ei ben, ond gadawyd y llall y tuallan. Ond O! trwy ryw amryfusedd torcalonus, gwnaethpwyd camsyniad ofnadwy, ac hebryngwyd yr arch *wrong* i'r Eglwys.

Wel, beth am hyny? A oedd rhyw bwys yn hyny?

Ydych chwi ddim yn deall? Mae y bychan oedd heb ei fedyddio yn golledig ac yn uffern, ac heb obaith adferiad byth; a'r llall, mae wedi ei achub yn y bedydd, yn ol addysg y Llyfr Gweddi.

Esgusodwch fi, ond y mae hyny yn rhyfedd. Paham na allai'r ddau gael eu cario i'r Eglwys? Paham yr oedd un yn cael ei adael y tuallan? Beth oedd dyben gwasanaeth yr offeiriad? Ymddengys yma ddyryswch mawr i mi. Os oedd y gwasanaeth o ryw les, onid oedd mwy o'i angen ar yr un oedd heb ei fedyddio nag ar y llall? Awgrymwch fod un yn golledig, am ei fod heb ei fedyddio, a'r llall wedi ei achub yn y bedydd. Mae tuhwnt i'm dirnadaeth i. Pe darllenid y gwasanaeth uwchben arch y colledig, gallaswn ddeall fod yna amcan at dda.

Dyna'r drefn yn ol y Llyfr Gweddi Gyffredin. Nid yw gyfreithlawn yn ol deddfau'r Eglwys i ddarllen y gwasanaeth claddu uwchben gweddillion un heb ei fedyddio.

Ond fel mater o ffaith, gwnaethpwyd hyny. Cludwyd y difedydd i'r Eglwys, a'r bedyddiedig a adawyd allan. A fydd y camsyniad hwn yn gwneuthur rhyw wahaniaeth yn nghyflwr tragywyddol y ddau faban? A gaiff y difedydd ei adferu, a'r bedyddiedig ei ollwng i'r lle poeth? Peth rhyfedd os bydd i'r camsyniad sicrhau iachawdwriaeth y ddau, a pheth trist os bydd yr amryfusedd yn peryglu iachawdwriaeth y ddau. Os nad oes cyfiawnder mwy na hyn yn nhrefn Rhagluniaeth, fe'm tueddir i amheu y cwbl. Nid bai y naill blentyn oedd na fedyddiwyd ef, ac nid bai y naill na'r llall oedd fod yna gamsyniad wedi bod. Ond, atolwg, a oes yma syniad cywir am Dduw wrth wraidd y fusnes hon? Y mae yma ddirgelwch mawr os oes. Sonir am ddirgeledigaethau, ac yn ddiau y maent yn bod; ond nis gellir cuddio anghyfiawnder dan glogyn dirgeledigaeth. Dirgeledig-

aethau, eiddo'r Arglwydd ydynt. Ond y mae Duw yn gyfiawn. 'Choelia i byth lai. Mae'n well genyf fi gredu fod yr offeiriad a'r Llyfr Gweddi yn gamsyniol na chredu fod Duw yn anghyfiawn!

T. C. U.

PABYDDIAETH A PHROTESTANIAETH.

YN y flwyddyn 1517, pan y darfu i Luther hoelio ei osodiadau *(theses)*, 95 mewn nifer, ar ddrws eglwys Wittenberg, yr oedd Itali, Ysbaen, a Phortugal yn mhell ar flaen Gogledd Ewrop mewn gwareiddiad. Mewn masnach, celfyddyd, a llenyddiaeth, Itali oedd brenines Ewrop. Mewn gallu milwrol, helaethrwydd meddianau gwladol, a chyfoeth anherfynol, Ysbaen oedd prif allu'r byd. Yr oedd morwyr Portugal wedi manwlchwilio pob môr, ac wedi darganfod cyfandiroedd ac ynysoedd newyddion yn mhob cylch o'r byd. Mor ddibwys mewn cymhariaeth i'r teynasoedd mawrion hyn oedd Lloegr, Holland, a Germani! Ond trodd Lloegr, Holland, a Germani yn Brotestaniaid, tra yr arosodd Itali, Ysbaen, a Phortugal yn Babyddion, a mabwysiadodd Ffrainc ac Awstria fath o Babyddiaeth hanerffordd; a'r canlyniad, ar ol tair canrif o amser, yw gwrthdroad *(reversal)* hollol ar safleoedd y gwledydd hyn. Y mae yr olaf wedi dyfod yn flaenaf, a'r blaenaf yn olaf. Beth yn awr sydd wedi dyfod o allu ofnadwy yr Ysbaen, o ysbryd anturiaethus Portugal, o gelfyddyd a llenyddiaeth Itali? Pan lethwyd elfen Protestaniaeth allan o'r cenedloedd hyn gan y Chwil-lys, dinystriwyd egwyddor blaenfynediad cenedlaethol yr un pryd. Ond darfu i'r galluoedd Gogleddol, y rhai a dderbyniasant y Diwygiad Lutheraidd, gymeryd i fyny ar yr un pryd elfenau cynydd a blaenfynediad. Y mae Holland, Denmarc, Norway, Sweden, Prwsia, Sacsoni, Lloegr, Ysgotland, trwy gynydd dianwadal a parhaus mewn gwareiddiad, cyfoeth, gwybodaeth, a moesoldeb, yn ddangoseg eglur a phenderfynol o'r cymhelliad at flaenfynediad sydd yn gynwysedig yn y meddylddrych Protestanaidd.

1866. JAMES FREEMAN CLARKE.

Y TYBACO.

TYBACO, beth tebycach—i wenwyn?
Gwna'n gewynau'n afiach;
Swyna rai o synwyr iach—
Ffei iddo! beth ffieiddiach.—*J.D.*

D.S.—Y mae dau dŷ y dylai'r doeth gadw yn mhell oddiwrthynt—y tŷ tafarn a'r tŷ 'baco!

MANION A NODION.

FEL yr oedd Dr. Sion Davies o Fallwyd un diwrnod yn cydrodio â'i was, canfyddent o'u blaen ddau offeiriad; ac ebe'r Doctor yn bur ddisymwth :—

Dacw ddau offeiriad ffol
Yn myn'd ar ol eu gilydd.

"Ië'n siwr," ebe'r gwas—

Ond bod yn well ei ddysg a'i ddawn,
Mae'n agos iawn y trydydd.

Anfonodd y Doctor ei was i ddegymu rhyg ar adeg cynhauaf, at dyddynwr yn mhlwyf Llanymawddwy; a chymerodd y gwas fwy na'i ran o'r ysgubau, ac achwynwyd yn dost gan y tyddynwr am ei ymddygiad anonest, ac ebe'r Doctor yn frochus :—

Ei ran ei hunan a'i hawl—a gafodd
Y cyfaill uffernawl;
O'r rhyg iraidd rhagorawl,
Ai rhan Dduw fynai'r hen dd—l?

Y mae yn debyg fod yr Hen Ficer Pritchard o Landdyfri yn bregethwr rhagorol yn ei ddydd, ac y mae yn debyg wrth y triban canlynol fod son mawr am dano :—

Hen Ficer mawr Llanddyfri
Bregethodd ddydd Gwyl Ddewi;
Na fu'n y byd ei gwaeth na'i gwell,
Hi aeth yn mhell trwy Gymru.

Ond beth debygid sydd yn y triban hwn?—

Hen Ficer gwyn Llanddyfri
Sy'n myn'd trwy'r byd o boutu;
Yn 'mofyn plant i Shon o'r Glyn
I'w boddi yn Nghydwely.

Dyma ddau benill arall lled awgrymiadol am fywyd boreuol yr Hen Ficer :—

Y Ficer o Landdyfri
A'i fyddin aeth i feddwi,
A phan eisteddent wrth y tân,
Fe redodd Bran i Dywi.

Y Ficer o Landdyfri
Rhyw fore aeth i 'molchi;
Fu afon Bran erioed mor lan
Ar ol ei gân i Gweni.

Y mae y tribanau yna yn ddigon i brofi fod yr Hen Ficer yn wrthrych gwawd gan rigymwyr yr oes hono; a dyma sèn i offeiriad arall:—

Fe redodd 'ffeirad enbed
I Fyddfai o dre Llanbed,
A'r d—l a giliai dan yr hwch
Wrth wel'd ei swch mewn syched.

Y mae yn y rhai hyn rywbeth i ni heddyw sydd yn dywyll; ond pe gwybuasem yr amgylchiadau achosodd eu bodolaeth, efallai y byddent i ni o fwy gwerth.

Dyma benill ac ynddo gyfeiriad at lif mawr a gymerodd le yn afon Bran, ac y gorlifodd dros yr holl wlad, a bu agos i dref Llanddyfri gael ei hysgubo ymaith gyda'r llif:—

Fe gododd Bran o ddifri,
Wrth fyned trwy Llanddyfri,
Nes oedd y blagarts mwya'u 'stwr
Yn colli'r dw'r yn hili.

Clywais fy nhad ac amryw o hen bobl yn dyweyd mai lle ofnadwy am ei "blagarts" oedd Llanddyfri yn yr hen amser, ac ei bod yn beryglus i ddyn dyeithr fyned trwy y dref, yn neillduol ar hyd nos:—

Dyma gyfres o ddiarebion odledig:—

Gwir yw pob gwir
Ar fôr ac ar dir.

Po hwyaf byddo pob dyn byw,
Mwya' wêl a mwya' glyw.

Cynar gwsg a bore godi
Yw ffordd golud ti a'i gweli.

Gwell un heddy' na dau fory.

O eisieu cau y glwyd mewn pryd,
Fe aeth yr ychen trwy yr ŷd.

O eisieu hoel yn amserol
Y collodd y march ei bedol.

A fyno wrth redeg lwydd yn nglŷn,
Rhaid iddo ddal neu yru ei hun.

Dyrnodiau mân dwysion
Gwympasant goed mawrion.

A dafad neu fuwch geny',
Rhydd pawb dydd-dawch imi.

Goreu cymhorth i bob dyn
Yw'r cymhorth rydd ei law ei hun.

Ni ddaw Haf i ganol Gaua',
Mwy na Gaua' i Wyl Barna.

Ni ddaw hindda byth yn gynt,
Er cymaint regot ar y gwynt.

O lymaid i lymaid fe dderfydd y cawl,
O bechod i bechod äi'n was bach y d—l.

O ran camp gwin a merched,
Heb arbed bob awr,
Wna'r golud yn fychan
A'r diffyg yn fawr.

Ychydig gynilder
A chwyddiff yn llawer.

Haws gostwng chwant ar gychwyn,
Na boddloni'r oll a'i canlyn.

Haws gwneyd dwy simne newydd
Na chadw un â thanwydd.

Cadw dy gwnsel i ti dy hun,
Wedi ei roddi 'does arian a'i pryn.

A fydd byw wrth obeithio,
A fydd marw wrth ymprydio.

Clecwn sy'n holi,
A ffyliaid sy'n gweyd,
A'r calla sy'n tewi,
A'r mwya' i neyd.

Dyna ddigon y waith hon, bellach.

Rho'wch y crochan ar y tân,
A phen y fran i ferwi,
A dou lygad y gath go'd
A pheder trod y wenci.

Dyma ddesgrifiad bardd adnabyddus yn Aberhonddu o un o fechgyn Cwm Rhondda pan yn d'od i'r wlad :—

Mae cap fel cosyn ar ei ben,
A chot â *velvet collar ;*
A chadwen arian am ei wddf,
A than ei ên mae mwfflar ;
Tri bwtwn corn ar frest crys brith,
A slit ar odrau 'i lodrau,
Box 'sgwar o gorff ar goesau cam
Yn sefyll mewn botasau.

GWERNYFED.

Y DAFARN.

DAU englyn a gyfansoddwyd gan Lewis Hopcyn, o Landyfodwg, am yr hwn y dywedai Iolo Morganwg yn ei farwnad fel hyn :—

"Yn filoedd daeth nefolion,
A melusber dyner dôn,
Yn dorf ffraw i roesawu
Eu hwylus gar Lewis gu."—1771.

Mae cri i'm tyb i, a barn—anarbed
Yn erbyn pob tafarn ;
Gyr yn llwyr synwyr i'r sarn,
Gwario cod y gwr cadarn.

Ni cheir haidd o'r braidd yn brid,—bai irad,
Na bara i'r gwendid ;
Gwnan', dywedaf, gwn ond odid,
Frig y gwellt yn frag i gyd.

LEWIS HOPCYN.

YR HEN EGLWYS YN NGHYMRU.

PAPYR hynod o ddyddorol oedd hwnw a ddarllenwyd ar yr 11eg o Fai, o flaen Cymdeithas Anrhydeddus y Cymrodorion, yn 20, Hanover Square, Llundain, gan Mr. F. C. Conybeare, y Prifathraw John Rhys, Coleg yr Iesu, Rhydychain, yn y gadair. Y pwnc oedd "Nodweddion Heresiau yr Hen Eglwysi Prydeinig." Amlwg nad oedd un Drindod yn cael ei phroffesu, ac nad oes yn un man son am fedyddio yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Ar yr hen Groesau a'r Meini Coffa a geir ar draws y wlad, yr ymadrodd yn y cyffredin yw, "Yn enw y Goruchaf Dduw," heb son am y Mab a'r Ysbryd Glan. Ar hen faen yn y Faenor, yr oedd y gair Tilus yn ychwanegol. Ceir peth tra chyffelyb yn Llanilltyd Fawr. Y casgliad naturiol yw, fod yr hen Eglwys Brydeinig yn Undodaidd. Nid rhyfedd felly i ymryson gymeryd lle pan ddaeth Awstin a'i frodyr yma i ddysgu Pabyddiaeth.

Fe welir crynodeb o'r papyr yn y *Carnarvon and Denbigh Herald ;* wrth gwrs, ni ellid dysgwyl dim am bapyr o fath yr un dan sylw yn y newyddiaduron sydd yn cael eu derbyn yn gyffredin yn ein plith.

T. C. U.

BRYNIAU CASSIA.

DRWG genyf nad yw y penawd uchod wedi ymddangos yn yr YMOFYNYDD cyn hyn. Y mae Cenadaeth ein brodyr y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn y "Bryniau" wedi bod yn enwog o lwyddianus o'i chychwyniad, ac wedi enill cymeradwyaeth uchel ac edmygedd gwresog pawb a wyddant am dani. Hyd yma y maent wedi cael y maes iddynt eu hunain, ac y maent wedi gwneuthur eu gwaith yn dda. Nid oes genym yr un cydymdeimlad â'r eiddigedd sectol hyny sydd yn peri i wahanol enwadau ymosod ar yr un meusydd, a thrwy sefydlu cenadaethau gwrthwynebol, ddangos i'r brodorion pa fodd y mae Cristionogion, canlynwyr yr un Athraw, yn methu cytuno â'u gilydd. Ymddengys yr olygfa i mi yn ddigon trist i beri i angylion wylo.

O'r tu arall, nis gallwn wrthod ein cydymdeimlad â'r dychweledigion brodorol hyny, y rhai, er yn ddiolchgar am wasanaeth gwerthfawr y Methodistiaid, sydd yn methu derbyn eu credo yn ei chyfanrwydd. Mater o gydwybod yw, ac y mae y brodyr hyn yn myned ar gynydd mewn rhif a dylanwad. Erbyn heddyw y mae ganddynt amryw weinidogion, a chan eu bod yn frodorion, gallwn ddysgwyl eu bod mewn llwyr gydymdeimlad â'u brodyr. Yn yr *Inquirer* am Gorphenaf 23ain, cawn hanes eu Cyfarfod Blynyddol. Cafwyd pregeth gan U. Rakhmoi ar "Y Tair Ffurf o Grefydd yn Mryniau Cassia;" gan H. Kissor Singh, ar "Ddyledswyddau Undodiaid tuag at eu gilydd;" gan U. Riang Pohlong, ar "Anfarwoldeb yr Enaid;" gan Durga Singh, ar "Sut y daeth yn Undodwr;" gan David Edwards, ar "Ei Brofiadau yn ystod y pedair blynedd y mae wedi bod yn Undodwr." Pregethodd David Edwards hefyd ar "Gariad Tragywyddol Duw."

Credwn y bydd yr Undodiaid yn Nghymru yn falch i glywed gair yn achlysurol am eu brodyr yn Mryniau Cassia.

R. J. J.

Y DARLUN DU.

OGYLCH y pwmp yn llercian, ceir gweled ar fin nos,
Goeglencyn balch, â'i ddwylaw yn nwfn logellau 'i glos;
Ac yn ei ben mae pibell, a dyna'r cwbl sy'
Yn mhen y llanc rhygynog,—dim byd ond pibell ddu!

—*Cymru.*

ADOLYGIAD.

"*Report on Manuscripts in the Welsh Language.*" *Vol. I.* 300 tudal. Pris 1s. 4c. 1898.

DYMA Adroddiad cyntaf Mr. Gwenogfryn Evans o'i waith yn mhlith hen ysgrifau Cymraeg (Ysgrifau Mostyn Hall, 42 mewn nifer), ac y mae yn ddyddorol iawn. Mae y Rhagymadrodd yn awgrymiadol ac yn werthfawr, a darllenir ef yn ddiamheu genym gyda blas. Ceir ynddo gryn lawer o hanes un Ellis Griffiths, brodor o "Gronant Ucha ymhlwyf Llan Hasaph," yr hwn a ddesgrifia ei hun fel "Soldier of Calais." Yn yr 20fed flwyddyn o deyrnasiad Harri yr Wythfed yr ymunodd â "Rettunw Kalais." Gan ei fod yn ysgrifenu fel llygad-dyst, a'i fod a'i lygad a'i glust yn wastad yn agored, ac i bob ymddangosiad yn ddyn diragfarn hollol, teifl ei ysgrifau oleuni gwerthfawr ar y tymhor yr oedd yn byw ynddo. Gellir casglu oddiwrth yr englyn canlynol mai peth cymharol ddiweddar yw sebon yn y wlad hon :—

Hawddfyd i'r byd a welson,
Golchi yn wyn heb ddim o'r sebon ;
A chymysgu dw'r a lludw,
A golchi yn lan â hwnw.

Y cyhoeddwyr yw Eyre a Spottiswoode. T. C. U.

GOBEITHIO.

NIS gellir bob amser *brofi* i foddlonrwydd pob amheuwr; ond gwell na hyny, bydd calon a chydwybod a gobaith o du argyhoeddiadau moesol mawrion y byd. Nid gobeithiwch os gellwch, yw'r pwnc, ond rhaid i chwi obeithio os yn ddyn. Os dywedir y dylai cariad lywodraethu yn y byd, fe ddywedir yr hyn yw y teimlad cyffredin. Ac os dywedir y gwnaiff, fe ddywedir yr hyn y mae mil mwy o brofion drosto nag sydd genym y cyfyd yr haul yfory, neu y tyf y borfa ar ol y gwlaw. Felly, meddwn, pan y gwyddoch eich bod yn meddwl yn y cyfeiriad iawn, pan y gwyddoch fod eich gobeithion yn deilwng, pan y gwyddoch am yr hyn a ddymunech ei fod yn wir y dylai fod yn wir, pan fyddoch yn ffrydlif y gobaith a'r dymuniad cyffredin, a dysgwyliad cydwybodol dynolryw, yna peidiwch pryderu, ond ewch rhagoch yn y cyfeiriad hwnw gyda'ch holl nerth. Dyna lwybr tyfiant moesol. Dyna brif-ffordd llawenydd. Dyna'r ffordd sydd yn myned yn ddysgleiriach, ddysgleiriach, hyd y perffaith ddydd. Ar y brif-ffordd freninol hono y cerddwch âg etholedig feibion a merched dynion. Yno mae y beirdd ; mae y proffwydi, y gweledyddion, yr arwyr, y gwrywod a'r menywod a wnaethant y bywyd dynol yn ardderchog—oll yno. Mae'r iach a'r dianaf, y cyfan-galon, y rhai llawn oed ac o gyflawn faint, y rhai sydd i

arwain blaenfynediad y dyfodol—y mae y rhai hyn oll ar brif-ffordd ffydd a gobaith. Casgliad mwyaf amlwg y darganfyddiad a'r rhagwelediad mwyaf diweddar yw fod dadblygiad dyfodol yr hil ddynol o angenrheidrwydd ar hyd llinell eu gobeithion uchaf. Y dynion gobeithiol, y cenedloedd gobeithiol, a arosant. Y rhai diog, diobaith, digalon, fe'u gadewir ar ol, fe'u siomir, ac fe'u dinystrir yn yr ymdrech am fodolaeth ac ymgais y blaenfynediant: canys trwy obaith ein hachubir. "Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn, ond gair ein Duw ni a saif byth." G. B.

MANION AC HANESION.

Ffair Brechfa.—Dydd Mercher, Hydref 3ydd, 1877—"Ffair Brechfa i rywrai. Pa fath jubili oedd hon i ni, blant ystalwm byd? Mae hi felly i rywrai eto. Mae ein *landmarks* ni wedi eu symud yn mlaen, a'n boddhad ni mewn pethau gwahanol; ond pâr plant yn blant i ddiwedd amser, a newidia pleserau a mwynderau bywyd yn ol oedran ac amgylchiadau."—*Dyddiadur G. Marles.*

Y Graig a Gellionen.—Cynaliodd yr eglwys uchod ei gwyl de flynyddol fel arfer, trwy barch ac anmharch—parch parodol aelodau y lle, ac anmharch y tywydd. Gwlaw fel pistyllau tragywyddol hyd bedwar yn y prydnawn; yna gostegodd yr ystorm ychydig, a daeth tua tri neu bedwar cant i fwynhau y danteithion a barotowyd. Diolchwn dros yr eglwys i bawb am eu llafur gyda'r gwaith, ac yn neillduol i'r seindorf arian am ei darnau blasus i'r wyl. Llongyfarchwn y seindorf yn ei gwaith yn cipio y wobr flaenaf a thlws arian yn Eisteddfod Dalaethol Abertawe.

Capelygroes.—Gyda phleser mawr y derbyniasom y newydd fod William Williams, mab Mr. Evan Williams, Llanwnen, wedi pasio yn anrhydeddus yr *Entrance Examination* i'r London and Provincial Bank, a'i fod wedi ei benodi i wasanaethu yn y gangen sydd gan y cwmni yn Builth. Ar ol pasio trwy yr ysgol elfenol yn mhentref Llanwnen, derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ragbarotoawl y Cribyn, o dan yr athraw medrus y Parch. David Evans. Bydd yn golled i Ysgol Sul Capelygroes ar ol un mor ffyddlon ac ymdrechgar, a chyduna fy nghydysgolheigion â mi i ddymuno iddo iechyd da a llwyddiant mawr.

Cefncoed.—Cynaliodd Ysgol Sul y capel hwn ei *pic-nic* blynyddol mewn llanerch hynod brydferth ger llaw Eglwys y Faenor. Ag ystyried amgylchiadau gresynus yr ardal ar hyn o bryd, daeth torf fawr o hen ac ieuainc yn nghyd, a threuliwyd y dydd yn ddifyr dros ben.

Caerdydd.—Deallwn fod y Parch. J. Tyssul Davies, B.A., yn awr o Devonport, wedi ei benodi yn weinidog ar yr eglwys Undodaidd yn y dref boblog hon. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei gylch newydd.

Cymanfa Ganu Ceredigion.—Enw priodol "Edmygydd," yr hwn a enillodd y wobr am yr hanes goreu o'r Gymanfa Ganu, yw Mr. T. G. Thomas, Crugyreryr, Llandysul.

PRIODAS.

Awst 10fed, yn Ngbapel Platt, Manchester, gan y Parch. J. C. Street, Amwythig, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. S. H. Street, Manchester, Adam Sedgwick, trydydd mab y Milwriad Barnard, Leckhampton, Cheltenham, â Muriel, merch ieuengaf y diweddar Barch. W. Thomas (Gwilym Marles), Llwynrhydowen.

MARWGOFION.

MEHEFIN 20fed, ar ol cystudd caled, yn 36 mlwydd oed, David Joshua, Pantswllt. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y gweinidog.

GORPHENAF 13eg, yn bump wythnos oed, Evan Evans, Criborlwyd. Claddwyd yr un bychan y dydd Gwener canlynol yn mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H.

GORPHENAF 16eg, yn 67 mlwydd oed, David Jones, dilledydd, Ystrad House, Llanbedr. Yr oedd golygon yr ymadawedig yn ddrwg er's blynyddau, a bu hyn yn achos iddo gyfarfod â damwain angeuol yn Abertawe, pan oddicartref yn newid awyr ; taflwyd ef i lawr gan gerbyd, a chafodd ei ddiwedd yn y fan. Gadawodd chwech o blant i alaru eu colled ar ol tad a fu'n ymdrechgar iawn drostynt. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohono yn Mynwent y Plwyf, a gwasanaethwyd gan yr offeiriad.

GORPHENAF 18fed, ar ol hir gystudd, yn 65 mlwydd oed, Gwenllian Thomas, Abergranell. Claddwyd yn nghladdfa'r teulu, yn mynwent Eglwys Llanwnen. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac wrth y drws gan y Parchedigion Lewis Williams, J. Davies, ac E. Evans (A.) Ni adawodd y chwaer hon berthynasau agos i alaru ar ei hol. Hi oedd y ddolen olaf o hen deulu'r Aber ag oedd yn perthyn i eglwys Alltyplaca. Pwy ddaw i lanw'r bwlch? Pwy?

GORPHENAF 20fed, yn 71 mlwydd oed, Samuel Howells, Cribyn, ar ol cystudd maith. Dyn diniwed a chyfaill cywir oedd Sam, a cherid ef yn fawr gan bawb ddelai i gyffyrddiad âg ef. Yr oedd yn aelod ffyddlawn o'r eglwys Undodaidd yn Cribyn, a theimlai ddyddordeb neilduol yn yr achos yno, yn ogystal ag yn yr achos Undodaidd yn mhob man. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Cribyn, y dydd Sadwrn canlynol, pryd y daeth tyrfa luosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Pregethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

GORPHENAF 26ain, ar ol cystudd hir a phoenus iawn, Ellen (Nellie), gwraig Mr. Rees Rees, *draper*, Mount Pleasant Garden, Aberdar, yn 42 mlwydd oed. Yr oedd Mrs. Rees, neu Llinos Rhondda, fel yr adwaenid hi yn mhlith ei chydnabod, wedi enill iddi ei hun safle uchel yn y byd cerddorol. Daeth i sylw gyntaf pan tua 15 mlwydd oed. Yr oedd yn aelod o Gor Mawr Caradog, a bu yn canu gydag ef y ddau dro y cystadleuwyd yn y Palas Grisial yn Llundain, yn 1871 ac 1872. Enillodd ei gwobr Eisteddfodol gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe, a'i diweddaf, yr unfed-ar-bymtheg, yn Eisteddfod Fawr Llundain yn 1887. Sadwrn, dydd yr angladd, gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed, a chychwynwyd yn orymdaith fawr i gwrdd â'r tren 11.45, T.V.R., i fyned i Dreorci. Canwyd amryw emynau allan o'r rhaglen angladdol, dan arweiniad Mr. Jenkin Morris. Yr oedd amryw o'r Côr Mawr, a lluaws o'r Côr Undebol, yn bresenol. Wrth orsaf Treorci yr oedd llu mawr yn bresenol drachefn Canwyd eto, dan arweiniad Mr. M. O. Jones, a chynaliwyd gwasanaeth yn nghapel Bethania, lle yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn aelod flynyddoedd yn ol ; y Parchn. D. Rhagfyr Jones, y gweinidog, W. Charles, M.A., a T. Davies, &c., yn cymeryd rhan. Yn y gladdfa, gwasanaethwyd ar làn y bedd gan y Parch. Jenkin Thomas. Heblaw ei phriod, y mae Mrs. Rees wedi gadael mab a thair merch i alaru eu colled.

BOREU Iau, Awst 11eg, John Jones, Cilmaengwyn, ger Ynysmeudwy, Pontardawe, yn 73 mlwydd oed. Daearwyd ei weddillion marwol yr 16eg cyfisol, yn hen gladdfa Gellionen, ar ddiwrnod poeth anarferol. Pregethwyd ar y perwyl prudd gan y Parch. T. J. Jenkins, y gweinidog, yn bwrpasol iawn, oddiar y geiriau, "Treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl." Dymunwn gysur mawr i'r weddw unig, a'r perthynasau oll, yn nyffryn wylofain.

Myn'd o un i un yn gyson
Mae ein hanwyl gydfforddolion,
Myn'd i uffern? na! i nefoedd,—
Nefoedd bery yn oes oesoedd.